

# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**

G. Davies a D. Jones

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr

S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion

S. Rossiter, Cyfreithiwr Cynorthwyol

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.10 - 10.16 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L.M. Davies.

Nododd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Davies wedi cyflwyno llythyr o gefnogaeth.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

## 4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD E.R. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Bu'r Panel yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i E.R. i ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Ystyriodd y Panel arsylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos ac asesu'r llwybr cerdded potensial o gyfeiriad cartref E.R. i'r ysgol ddynodedig.

**PENDERFYNWYD, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, y dylid gwrthod yr apêl ar y sail bod E.R. yn mynychu ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol a bod y llwybr cerdded wedi'i asesu fel un addas yn unol â Meini Prawf Llywodraeth Cymru.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**